

SL(6)108 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad COVID-19.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), gan gael effaith o ddechrau 11 Rhagfyr 2021, er mwyn:

- Egluro nad yw awditoriwm theatr, sinema neu neuadd gyngerdd nac ardal wyllo arena neu stadiwm o dan do i'w trin fel mangreoedd lle y gwerthir bwyd neu ddiodyd, neu lle y'i darperir fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre. Pwrpas y newid hwn yn dileu amwysedd posibl yn y prif Reoliadau;
- Gwneud gorchuddion wyneb yn ofyniad cyfreithiol yn ystod gwersi gyrru proffesiynol a phrofion ymarferol yng Nghymru oni bai bod unigolyn wedi'i esemptio.

Mae'r prif Reoliadau yn cael eu diwygio ymhellach gan y Rheoliadau hyn, o ddechrau 15 Rhagfyr 2021, i eithrio adferiad blaenorol (neu imiwnedd naturiol) fel ffordd o ddangos statws COVID-19 at ddibenion y Pàs COVID.

Y weithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd



Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

“Er bod y prif Reoliadau, fel y’u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae’r Llywodraeth o’r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o’r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o’r rhain yn hawliau amodol, sy’n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau’r holl gyfyngiadau a gofynion o’r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a’u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â’r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu’r cyfyngiadau a’r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy’r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae’n cydbwysu’r angen i gynnal ymateb priodol i’r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy’n parhau’n gymesur â’r angen i leihau cyfradd trosglwyddo’r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.”

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“O ystyried y bygythiad parhaus sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd cyhoeddus prydlon, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi’i gynnal mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. Serch hynny, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys Is-adran Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru.”

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd

Nodwn nad oes asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o’r asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.



Er y nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn datgan y “cyhoeddwyd asesiadau effaith cryno yn flaenorol sy’n cynnwys effeithiau sy’n ymwneud â gorchuddion wyneb”, ni chyfeirir at effeithiau cydraddoldeb sy’n ymwneud â newidiadau i’r rheoliadau sy’n eithrio adferiad blaenorol (h.y. imiwnedd naturiol) fel ffordd o ddangos statws COVID-19 at ddibenion y Pàs COVID.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd

Mewn perthynas ag eithrio adferiad blaenorol (h.y. imiwnedd naturiol) fel ffordd o ddangos statws COVID-19 at ddibenion y Pàs COVID, nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y newid “yn cael ei gyfiawnhau ar sail iechyd y cyhoedd”, yn ogystal â “c[h]ryfhau’r gofynion fel y cynigiwyd yn flaenorol gan y Grŵp Cyngor Technegol ac fe’i cefnogir gan y Prif Swyddog Meddygol.”

Fodd bynnag, nid yw’r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau penodol at y dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru’n dibynnu arni wrth wneud darpariaeth o dan y Rheoliadau hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru nodi’r dystiolaeth sy’n dangos bod eithrio adferiad blaenorol (h.y. imiwnedd naturiol) fel ffordd o ddangos statws COVID-19 at ddibenion y Pàs COVID “yn cael ei gyfiawnhau ar sail iechyd y cyhoedd”.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae’r asesiad effaith cryno a gyhoeddwyd ar gyfer y pàs COVID wedi ei ddiweddarau yng ngoleuni’r newidiadau i’r ddarpariaeth ynghylch imiwnedd naturiol. Caiff y fersiwn wedi ei diweddarau ei chyhoeddi cyn hir.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod natur anrhagweladwy imiwnedd naturiol yn golygu ei fod yn anaddas i’w ddefnyddio fel mesur ardystio o’i gymharu â brechu a phrofi. Mae cryfder yr ymateb imiwnedd amddiffynnol i COVID-19 yn amrywio’n fawr o un person i’r llall, ac er ei bod yn debygol iawn y caiff unigolyn ei ddiogelu rhag clefyd difrifol neu farwolaeth am gyfnod ar ôl gwella o’r haint cyntaf, bydd cyfnod para’r diogelwch hwn yn amrywio ac nid yw gallu’r unigolion hyn i barhau i drosglwyddo’r feirws wedi cael ei feintoli eto.

Nododd cofnodion cyfarfod 99 y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE 99) y canlynol:

- There remain many uncertainties about the biological parameters of Omicron including the combination of transmissibility and immune escape which give it a growth advantage over Delta in the UK. Evidence continues to suggest a significant



degree of immune escape, and much higher levels of reinfections are being seen with Omicron (8% to 9%) than Delta (around 1%).

Atodir dolen i'r papur <https://www.gov.uk/government/publications/sage-99-minutes-coronavirus-covid-19-response-16-december-2021/sage-99-minutes-coronavirus-covid-19-response-16-december-2021>.

Bydd y darpariaethau ynghylch y pàs COVID sy'n ymwneud ag imiwnedd naturiol a thystiolaeth o frechu (gan gynnwys y diffiniad ffurfiol o wedi ei frechu'n llawn) yn parhau i gael eu hadolygu wrth i gyfraddau achosion newid ac wrth i'r rhaglen frechu barhau i gael ei gweithredu.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 10 Ionawr 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee